

Cod Ymarfer ALTE

Cyflwyniad

Ym 1994, penderfynodd aelodau ALTE ei bod hi'n hanfodol arddel Cod Ymarfer ffurfiol a fyddai'n diffinio'r safonau y byddai aelodau presennol ac aelodau'r dyfodol yn cytuno i gwrdd â nhw, wrth ddarparu eu harholiadau, a bod yn ddatganiad i ddefnyddwyr yr arholiadau hynny o'r hyn y gallent ei ddisgwyl.

Dyfeisiwyd y Cod Ymarfer gyda'r prif amcanion hyn mewn golwg: sefydlu lefelau hyfedredd cyffredin; bod profion yn gymharus o ran ansawdd, yn ogystal â lefel, a bod rhaid gweithredu safonau cyffredin wrth eu darparu. Mae'r Cod Ymarfer yn nodi'r safonau hynny ac yn datgan beth yw cyfrifoldebau darparwyr arholiadau iaith a'r rhai sy'n eu defnyddio.

Cod Ymarfer ALTE

Fel darparwyr arholiadau iaith, mae aelodau ALTE'n dymuno arddel Cod Ymarfer er mwyn dangos y safonau y maent yn anelu at eu cyrraedd yn glir, ac i gydnabod y gofynion y maent yn rhwym o'u gweithredu.

Wrth lunio Cod Ymarfer a chadw ato, mae'n angenrheidiol gwahaniaethu rhwng swyddogaethau amrywiol y rhai sydd â diddordeb mewn gosod safonau mewn arholiadau iaith a'u cynnal. Y rhain yw: y rhai sy'n datblygu arholiadau, y rhai sy'n defnyddio arholiadau a'r rhai sy'n sefyll arholiadau.

Y rhai sy'n datblygu arholiadau yw'r bobl sy'n llunio arholiadau ac yn eu gweinyddu, yn ogystal â'r rhai sy'n gosod polisiau ar gyfer rhaglenni profion penodol.

Gall y rhai sy'n defnyddio arholiadau eu dethol, comisiynu gwasanaethau i ddatblygu arholiadau neu wneud penderfyniadau sy'n effeithio ar bosibiliadau addysgol a gyrfaoedd eraill ar sail canlyniadau arholiadau.

Y rhai sy'n sefyll arholiadau yw'r ymgeiswyr, sy'n sefyll arholiadau naill ai o ddewis, neu oherwydd bod rhaid iddynt wneud.

Mae swyddogaeth datblygwyr arholiadau a'r defnyddwyr yn gallu gorgyffwrdd, wrth gwrs, e.e. pan fydd asiantaeth addysg y llywodraeth yn comisiynu datblygu gwasanaethau arholiadau, ac yn gwneud penderfyniadau ar sail y canlyniadau. Prif gylch gorchwyl aelodau ALTE yw datblygu'r arholiadau a'u gweinyddu. Felly, mae ganddynt gyfrifoldeb dros ddefnyddwyr yr arholiadau ac yn y pen draw dros yr ymgeiswyr; am y rheswm hwnnw, ymdrinnir â chyfrifoldebau'r rhai sy'n defnyddio'r arholiadau yn y Cod Ymarfer hwn.

Bydd aelodau ALTE'n gwarchod hawliau'r ymgeiswyr drwy geisio cyrraedd safonau'r Cod Ymarfer mewn pedwar maes:

- Datblygu'r Arholiadau
- Dehongli Canlyniadau'r Arholiadau
- Ceisio am Degwch
- Rhoi Gwybodaeth i Ddefnyddwyr yr Arholiadau

Rhennir y Cod Ymarfer yn ddwy ran. Mae Rhan Un yn canolbwyntio ar gyfrifoldebau aelodau ALTE a Rhan Dau ar gyfrifoldebau defnyddwyr yr arholiadau.

Rhan 1 - Cyfrifoldebau Aelodau ALTE

Datblygu'r Arholiadau

Bydd aelodau ALTE'n darparu'r wybodaeth y mae defnyddwyr yr arholiadau a'r ymgeiswyr ei hangen er mwyn dewis yr arholiadau priodol.

Yn ymarferol, bydd aelodau ALTE'n gwarantu y byddan nhw'n gwneud yr isod:

- Diffinio beth mae pob arholiad yn ei asesu a pha ddefnydd y dylid ei wneud ohonynt.

- Disgrifio'r gynulleidfa/cynulleidfaoedd mae'r arholiadau'n briodol ar eu cyfer.
- Esbonio'r cysyniadau mesur perthnasol ar lefel manylder sy'n addas i'r gynulleidfa yr anelir ati.
- Disgrifio proses datblygu'r arholiadau.
- Esbonio sut y dewisir yr wybodaeth a'r sgiliau sy'n cael eu profi.
- Darparu naill ai samplau enghreifftiol neu gopiau cyfan o'r tasgau arholi, cyfarwyddiadau, papurau ateb, llawlyfrau ac adroddiadau i'r defnyddwyr.
- Disgrifio'r gweithdrefnau ar gyfer sicrhau addasrwydd pob arholiad ar gyfer grwpiau o gefndiroedd hiliol, ethnig neu ieithyddol sy'n debygol o gael eu profi.
- Adnabod yr amodau a'r sgiliau angenrheidiol ar gyfer gweinyddu pob arholiad a'u cyhoeddi.

Dehongli Canlyniadau'r Arholiadau

Bydd aelodau ALTE'n cynorthwyo defnyddwyr yr arholiadau ac ymgeiswyr i ddehongli'r canlyniadau'n gywir.

Yn ymarferol, bydd aelodau ALTE'n gwarantu y byddan nhw'n gwneud yr isod:

- Darparu adroddiadau prydlon a hawdd eu deall ar ganlyniadau'r arholiadau, sy'n disgrifio perfformiad yr ymgeiswyr yn glir ac yn gywir.
- Disgrifio'r gweithdrefnau a ddefnyddir i sefydlu'r trothwy llwyddo a/neu raddau.
- Oni osodir trothwy llwyddo, yna darparu gwybodaeth a fydd yn cynorthwyo'r defnyddwyr i ddilyn gweithdrefnau rhesymol i osod trothwy llwyddo lle bo'n briodol.
- Rhybuddio defnyddwyr i osgoi camddefnyddio canlyniadau'r arholiadau mewn ffyrdd penodol y gellir eu rhagweld.

Ceisio Tegwch

Bydd aelodau ALTE'n sicrhau bod eu harholiadau mor deg â phosibl i ymgeiswyr o gefndiroedd gwahanol (e.e. hil, rhyw, cefndir ethnig, anghenion arbennig ac yn y blaen).

Yn ymarferol, bydd aelodau ALTE yn gwarantu y byddan nhw'n gwneud yr isod:

- Adolygu tasgau arholi ac adnoddau perthynol i osgoi cynnwys neu iaith ansensitif.
- Gweithredu gweithdrefnau i sicrhau bod gwahaniaethau perfformiad yn perthyn yn bennaf i'r sgil a asesir yn hytrach na ffactorau amherthnasol fel hil, rhyw a chefnidir ethnig.
- Lle bo'n ymarferol, darparu arholiadau neu weithdrefnau gweinyddu i ymgeiswyr ag anghenion arbennig.

Rhoi gwybodaeth i Ymgeiswyr

Bydd aelodau ALTE'n rhoi'r wybodaeth isod i ddefnyddwyr arholiadau ac ymgeiswyr:

Yn ymarferol, bydd aelodau ALTE'n gwarantu y byddan nhw'n gwneud yr isod:

- Rhoi'r wybodaeth i ddefnyddwyr yr arholiadau ac ymgeiswyr i'w cynorthwyo i farnu a ddylid sefyll arholiad penodol, neu a ddylid defnyddio arholiad ar lefel uwch neu is.
- Rhoi'r wybodaeth y bydd ei hangen ar ymgeiswyr i fod yn gyfarwydd â rhychwant yr arholiad, y mathau o fformat tasgau, y cyfarwyddiadau ar y papurau, cyfarwyddiadau eraill a strategaethau priodol ar gyfer sefyll yr arholiadau. Ceisir sicrhau bod yr wybodaeth hon ar gael i bob ymgeisydd.
- Rhoi gwybodaeth am yr hawliau sydd gan ymgeiswyr i gael copiau o bapurau ateb (neu beidio), i ailsefyll profion, ailfarcio papurau neu wirio'r canlyniadau.
- Rhoi gwybodaeth am ba mor hir y cedwir canlyniadau ar ffeil a nodi at bwy y rhyddheir canlyniadau'r arholiadau (neu beidio).

Rhan 2 - Cyfrifoldebau Defnyddwyr yr Arholiadau

Mae defnyddwyr yr arholiadau'n gallu cael gwybodaeth am yr arholiadau o'r sawl sy'n eu datblygu, ac mae a wnelo'r Cod Ymarfer iddyn nhw â defnydd priodol o'r wybodaeth hon. Fel datblygwyr yr arholiadau, mae ganddynt gyfrifoldeb dros yr ymgeiswyr ac mae dyletswydd arnynt i osod safonau ymddwyn uchel a theg. Disgrifir y cyfrifoldebau hyn isod dan y pedwar pennawd a ganlyn:

Dethol Arholiadau Addas, Dehongli Canlyniadau'r Arholiadau, Ceisio Tegwch, Rhoi gwybodaeth i Ymgeiswyr.

Dethol Arholiadau Addas

Dylai defnyddwyr yr arholiadau ddethol arholiadau sy'n unol â'r pwrpas a fwriadwyd a'u bod yn briodol i'r ymgeisiaeth yr anelwyd yr arholiadau ati.

Dehongli Canlyniadau'r Arholiadau

Dylai defnyddwyr yr arholiadau ddehongli'r marciau'n gywir.

Ceisio Tegwch

Dylai defnyddwyr yr arholiadau ddethol arholiadau sydd wedi eu datblygu mewn ffyrdd sy'n ceisio eu gwneud mor deg â phosibl i ymgeiswyr o gefndiroedd gwahaol (e.e. hil, rhyw, cefndir ethnig, anghenion arbennig, ac yn y blaen).

Rhoi gwybodaeth i Ymgeiswyr

Lle bo defnyddwyr yr arholiadau'n cysylltu'n uniongyrchol ag ymgeiswyr, dylent ystyried bod ganddynt lawer o'r un dyletswyddau a nodir ar gyfer aelodau ALTE dan Adran 1, sef Rhoi Gwybodaeth i Ymgeiswyr.

Cydnabyddir 'The Code of Fair Testing Practices in Education' a gynhyrchwyd gan y *Washington D.C. Joint Committee on Testing Practices*.